

**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda ddydd Llun, 22 Mai 2023**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), Wyn Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans.

YN BRESENNOL YN RHITHWIR: Endaf Edwards, Chris James, Caryl Roberts, Marc Davies.

HEFYD YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet.

Y Cynghorwyr Matthew Vaux, Wyn Thomas, Aelodau o'r Cabinet.

AELODAU NAD YDYNT AR Y PWYLLGOR YN BRESENNOL YN RHITHWIR: Y Cynghorydd Gareth Lloyd.

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Tim Bray, Rheolwr Argyfyngau Sifil Posibl a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu, Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu, Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, Carol Thomas a Llinos Williams, Cyfieithwyr.

(10.00am - 12.00pm)

1 Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Manteisiodd y Cynghorydd Rhodri Evans ar y cyfle i longyfarch y Cadeirydd, y Cynghorydd Keith Evans, ar gael ei ethol yn Is-gadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar Fai 19^{eg} 2023. Hefyd llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd Maldwyn Lewis a etholwyd yn Gadeirydd yn yr un cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Geraint Wyn Hughes a Ceris Jones am fethu mynychu'r cyfarfod.

Ymddiheurodd Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, am ei hanallu i fynychu'r cyfarfod.

- 2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswilt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

Datgelodd y Cynghorydd Rhodri Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda, Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion.

3 Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR / CWMPAS Chwarter 3 2022/23

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i Adroddiad Diogelu Chwarter 3 y Grŵp Gweithredu Lleol Cyfun CYSUR/CWMPAS, rhwng y cyfnod 1.10.2022 a 31.12.2022, 2022/23.

Croesawodd y Cadeirydd Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, i roi crynodeb o'r pwyntiau allweddol, a oedd fel a ganlyn:

Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:

- Yn Chwarter 3, bu cynnydd yn nifer y cysylltiadau / adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch plant / pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 2. Derbyniwyd 1112 o gysylltiadau / adroddiadau yn Chwarter 3 o'i gymharu â 1030 yn Chwarter 2.
- Bu cynnydd yng nghyfanswm y cysylltiadau / adroddiadau a arweiniodd at gymryd camau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant. Roedd 193 yn Chwarter 3 o'i gymharu â 171 yn Chwarter 2.
- Canran yr adroddiadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn y chwarter hwn oedd 17.3% o'i gymharu â 16.7% yn Chwarter 2.
- Yn Chwarter 3, aeth 7.3% o'r adroddiadau ymlaen i Ymholiad Adran 47 o'i gymharu ag 8.3% yn Chwarter 2. Roedd angen i 0.97% o'r adroddiadau symud ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant yn Chwarter 2 o'i gymharu ag 1.6% yn y chwarter hwn, sef Chwarter 3. Felly bu cynnydd yn nifer y cysylltiadau / adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 3 a arweiniodd at gynnydd yn nifer y trafodaethau strategaeth a gynhaliwyd a chynnydd yn nifer y plant a oedd yn destun Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant.
- Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant oedd 31 o'i gymharu ag 16 yn Chwarter 2.
- Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant oedd 28 o'i gymharu â 13 yn Chwarter 2.
- Cyfanswm yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y chwarter hwn oedd 81 o'i gymharu ag 86 yn Chwarter 2. Yn y chwarter hwn, cafodd 59 o'r ymholiadau eu cynnal ar y cyd â'r Heddlu a chafodd 22 eu cynnal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel Asiantaeth Sengl.
- Y prif gategoriâu o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn Chwarter 3 oedd cam-drin corfforol (40), cam-drin / cam-fanteisio'n rhywiol (15), esgeulustod (13) a cham-drin emosiynol (9). Mae hyn yn dilyn yr un patrwm â'r hyn a welwyd yn Chwarter 2.
- Roedd 49 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y chwarter hwn, o'i gymharu â 46 ar ddiwedd Chwarter 2. Yn y chwarter hwn, cofrestrwyd 29 o dan y categori cam-drin emosiynol / seicolegol, 14 o dan y categori esgeulustod a 6 o dan y categori esgeulustod a cham-drin corfforol.

- Y prif ffactorau risg ar gyfer y 49 o blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31/12/2022 oedd cam-drin domestig, iechyd meddwl rhieni, rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol a rhieni'n gwahanu.
- O ran Diogelu Oedolion, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a / neu eu hesgeuluso, gyda 128 oedolyn yn cael eu hadrodd yn y chwarter hwn o'i gymharu â 113 yn Chwarter 2. Yn arbennig, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion yr adroddwyd eu bod mewn perygl yn ystod mis Tachwedd (67) o'i gymharu â 53 ym mis Hydref a 37 ym mis Rhagfyr. Nid yw'n glir pam y bu cymaint o gynnydd yn y mis hwnnw, ond roedd yr adroddiadau'n ymwneud â phryderon ynghylch cam-drin domestig.
- Unwaith eto'r categori o gam-drin yr adroddwyd amdano fwyaf yn ystod y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol / seicolegol, gyda 64 adroddiad yn datgan mai hwn oedd y prif gategori o gam-drin. Esgeulustod oedd yr ail brif gategori o gam-drin a adroddwyd (51), yna cam-drin ariannol (42), cam-drin corfforol (33) a cham-drin rhywiol (23). Mae hyn yn dilyn patrwm y chwarter blaenorol.
- O'r adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch pob categori o gam-drin, menywod oedd mwyafrif y bobl yr adroddwyd eu bod mewn perygl, ac roedd nifer y menywod yn sylweddol uwch na nifer y dynion. Fodd bynnag, o ran cam-drin ariannol adroddwyd bod bron yr un nifer o ddynion a menywod mewn perygl (20 dyn, 22 menyw). 3
- Yn Chwarter 3, yr Heddlu oedd prif ffynhonnell yr adroddiadau (40) o'i gymharu â Chwarter 2 lle gwelwyd mai'r brif ffynhonnell oedd Asiantaethau Darparu (30). Yn Chwarter 3, roedd nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu yn sylweddol uwch nag unrhyw asiantaeth arall. Y ffynhonnell â'r ail nifer uchaf oedd Asiantaethau Darparu (26).

Yn dilyn trafodaethau, nodwyd y canlynol:

- Yn dilyn cwestiwn ynghylch cynnydd mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant, cytunwyd y byddai'r Swyddog yn rhoi gwybodaeth am dueddiadau atgyfeirio amddiffyn plant cyn covid hyd yma,
- Gofynnwyd am eglurhad ar y diffiniad o 'gam-drin ariannol' – rhoddodd y Swyddog rai enghreifftiau o hyn,
- Gofynnwyd am esboniad i'r broses atgyfeirio Amddiffyn Plant, h.y., y camau sydd ynghlwm wrth y broses o roi plentyn ar y gofrestr a chymryd plentyn oddi ar y gofrestr,
- Yn dilyn cwestiwn, bydd y Swyddog yn codi pryderon y Pwyllgor gyda chydweithwyr Addysg ynglŷn â chyfanswm y plant (229) sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn y Sir.

Cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol, fel bod llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner yn cael eu monitro.

4 Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023

Croesawodd y Cadeirydd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, Diana Davies a Tim Bray, Swyddogion, i'r cyfarfod i gyflwyno Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Ceredigion a gynhaliwyd ar Ebrill 24^{ain} 2023. O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Mae Adran 39 hefyd yn nodi bod yn rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus anfon copi o'i Gynllun Llesiant Lleol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol.

Mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wedi derbyn diweddariadau yn y gorffennol am y broses o ddatblygu'r Aseiad Llesiant Lleol a Chynllun Llesiant Lleol 2023-2028 yng Ngheredigion.

Ar ôl i Gynllun Llesiant Lleol 2023-28 gael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar Fawrth 6^{ed} 2023, gwnaeth pob un o sefydliadau statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y Cynllun Llesiant Lleol yng nghyfarfodydd eu byrddau yn unigol, gan wneud hynny rhwng Mawrth 22^{ain} ac Ebrill 20^{fed}. Gallwn gadarnhau bod pob un o aelodau statudol unigol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 drwy eu trefniadau llywodraethu arferol. Fel un o'r aelodau statudol, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion y cynllun yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar Fawrth 22^{ain} 2023, y Cabinet ar Ebrill 4^{ydd} 2023 a'r Cyngor llawn ar Ebrill 20^{fed} 2023. Cyfarfu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar Ebrill 24^{ain} 2023 i gadarnhau'r broses o gymeradwyo'r Cynllun Llesiant 2023-28 a bu i'r holl bartneriaid gytuno'n unfrydol. Cytunwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar 2il Mai, gan fodloni'r terfyn amser statudol fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl y dyddiad y cynhelir pob etholiad cyffredin o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn dwyn dyddiad Ebrill 24^{ain} 2023.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Swyddogion i adrodd yn ôl drwy e-bost ar y cwestiwn a ofynnwyd ynghylch sut mae'r cynnydd o 1% yn nifer y perchnogion tai yng Ngheredigion, yn unol â Chyfrifiad 2021, yn cymharu ag Awdurdodau eraill,
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Adroddiad Sylfaenol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Risgiau yn Sgil y Newid yn yr Hinsawdd, bydd Swyddogion a Chadeirydd y pwyllgor hwn yn codi'r cwestiwn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor,
- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y ffigurau cyflogaeth a Statws Gweithgarwch Economaidd a ddangoswyd yn y Cyfrifiad diwethaf. Dywedwyd bod y ffigurau hyn yn cael eu monitro'n barhaus gan Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac felly mae'r blaenoriaethau yn y Cynllun Llesiant Lleol yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i:

1. Nodi bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion, a,
2. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Ebrill 24^{ain} 2023.

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion ac Arweinydd y Cyngor am fynychu a chyflwyno'r wybodaeth yn y cyfarfod heddiw. Diolchodd Arweinydd y Cyngor hefyd i Aelodau'r Pwyllgor am eu mewnbwn i'r Cynllun Llesiant Lleol yn ystod y broses lywodraethu.

5 Dyletswydd Trais Difrifol

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod o'r Cabinet, Diana Davies a Tim Bray, Swyddogion, i gyflwyno'r adroddiad.

Dechreuodd y Ddyletswydd Trais Difrifol ar Ionawr 31^{ain} 2023 ac mae'n cynnwys y gofynion a nodir ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a'r Llysoedd 2022. Mae'r rhain yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau penodedig i gydweithio i atal a lleihau trais difrifol. Mae'r awdurdodau penodedig yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub, y Sector Heddlua a Chyfiawnder (timau prawf a throseddu ieuenctid). Y sefydliadau hyn sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd ac sy'n gyd-atebol am gyflawni prif gerrig milltir yr arian grant rhanbarthol a ddarperir gan y Swyddfa Gartref i weithredu gofynion y Ddyletswydd. Yn ogystal â'r awdurdodau penodedig a nodir uchod, mae yna awdurdodau perthnasol sy'n cynnwys awdurdodau addysgol (ynghyd ag awdurdodau dalfa ieuenctid a charchardai). Mae gofyn i'r awdurdodau hyn gydweithio â'r awdurdodau penodedig, yn ôl yr angen, i gyflawni'r ddyletswydd a hefyd rhaid i'r awdurdodau penodedig ymgynghori â nhw wrth baratoi'r strategaeth. Rhaid i awdurdodau penodedig nodi'r mathau o drais difrifol sy'n digwydd yn yr ardal, achosion y trais hwnnw (cyhyd ag y bo modd gwneud hynny), a pharatoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Dylai'r strategaeth gynnwys atebion pwrpasol i atal a lleihau trais difrifol. Rhaid cadw golwg ar hyn ac adolygu yn flynyddol a'i ddiweddarau pan fo angen. Asesiad o Anghenion Strategol I fwydo i'r broses, dylai awdurdodau penodedig wneud dadansoddiad ar y cyd, yn seiliedig ar dystiolaeth o achosion trais difrifol o fewn eu hardal, a defnyddio'r dadansoddiad hwn i ddatblygu Asesiad o Anghenion Strategol a ddylai lywio'r strategaeth leol. Bydd hyn yn cynnwys ystod eang o ddata, er enghraifft gallai gynnwys data lleol a chenedlaethol am droseddau, data'r cyfrifiad, a data ysbytai a gofal sylfaenol. O safbwynt awdurdod lleol, gallai hefyd gynnwys data addysgol megis presenoldeb, data am atal a gwahardd disgyblion, a data am ofal cymdeithasol plant. Bydd yr Asesiad o Anghenion Strategol yn cynnwys dealltwriaeth gyffredin o'r carfanau sydd fwyaf agored i drais difrifol a bydd angen i'r strategaeth leol ddangos sut mae pob ardal yn cyfeirio adnoddau i'r boblogaeth ddiffiniedig sydd fwyaf angen cymorth.

Nid yw'r Ddyletswydd yn diffinio trais difrifol oherwydd mae'n fater i bob ardal unigol wneud hynny – bydd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth leol ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Strategol. Wrth ystyried yr Asesiad, mae'n eglur nad yw trais yn gyfyngedig i drais corfforol yn erbyn person. Mae'n darparu, at ddibenion y Ddyletswydd, bod trais yn cynnwys cam-drin domestig, troseddau rhyw, trais yn erbyn eiddo a bygythiadau o drais. At hynny, mae Strategaeth Trais Difrifol 2018 yn nodi fod Trais Difrifol yn ymwneud â mathau penodol o droseddau megis lladd, trais â chyllyll a gynnu, a meysydd lle mae trais difrifol neu ei fygythiad yn gynhenid, megis mewn gangiau a llinellau cyffuriau. Mae hefyd yn cynnwys bygythiadau sy'n dod i'r amlwg mewn rhai ardaloedd o'r wlad, megis defnyddio sylweddau cyrydol fel arf.

Mae'r ddyletswydd hon yn creu 'dull iechyd cyhoeddus' newydd o fynd i'r afael â Throseddau Treisgar gan nodi'r hyn sy'n achosi trais a chanfod ymyriadau sy'n gweithio er mwyn atal trais rhag lledaenu. Mae'r 'dull iechyd cyhoeddus' yn cynnwys nifer o wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol sy'n gweithio gyda'i gilydd i roi ymyriadau cynnar ar waith i atal pobl rhag mynd ynghlwm â throseddau treisgar.

Bwriad y Ddyletswydd yw creu'r amodau cywir i awdurdodau gydweithio a chyfathrebu'n rheolaidd, gan ddefnyddio partneriaethau presennol lle bo modd a rhannu gwybodaeth a chymryd camau effeithiol, cydlynus, yn eu hardaloedd lleol. Bydd pob sefydliad ac asiantaeth sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd yn atebol am eu gweithgarwch a'u cydweithredu.

Dywedodd y swyddogion wrth Aelodau'r Pwyllgor am yr amserlen bresennol, sef:

- 31^{ain} Ionawr 2023 – dechrau'r Ddyletswydd Trais Difrifol
- 31^{ain} Mawrth 2023 – cadarnhau'r cytundeb partneriaeth
- 28^{ain} Ebrill 2023 – llunio fersiwn dros dro o'r cynllun cyflawni a chadarnhau'r defnydd a wneir o gyllid y Swyddfa Gartref
- 29^{ain} Medi 2023 – cytuno ar fersiwn uwch o'r cynllun cyflawni
- 31^{ain} Ionawr 2024 – cwblhau'r Asesiad o Anghenion Strategol o ran Trais Difrifol
- 31^{ain} Ionawr 2024 – cwblhau'r Strategaeth Leol (gan gynnwys fersiwn derfynol o'r cynllun cyflawni)

Gellir gweld dogfen y Canllawiau Statudol fel y'i cyhoeddwyd ar 16^{eg} Rhagfyr 2022 ar y Wefan ganlynol: Dyletswydd Trais Difrifol - GOV.UK (www.gov.uk) (noder y Canllawiau penodol i Gymru o dudalennau 20 ymlaen).

Dyrannwyd cyllid i ranbarth Dyfed-Powys gan y Swyddfa Gartref i weithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a fydd hefyd yn darparu cymorth, yn monitro gweithgarwch ac yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Cadarnhawyd cyllid gan y Swyddfa Gartref hyd at 2024/2025, ar sail y dyraniadau blynyddol canlynol:

2022/2023: Costau llafur £30,000 Costau heb gynnwys llafur: £0

2023/2024: Costau llafur £180,000 Costau heb gynnwys llafur: £39,737.48
2024/2025: Costau llafur £77,041.71 Costau heb gynnwys llafur:
£111,655.25

Ar hyn o bryd, mae'r adnodd yn cael ei ddyrannu i gynyddu capasiti dadansoddi Heddlu Dyfed-Powys, er mwyn paratoi a chyflawni'r Asesiad rhanbarthol o Anghenion Strategol. Ar ben hyn, y bwriad yw defnyddio'r cyllid i gydlynu'r cynllun cyflawni, y strategaeth a'r llifioedd gwaith cysylltiedig yn y rhanbarth.

Mae Crest Advisory wedi ei gomisiynu gan y Swyddfa Gartref i weithio gyda'r sefydliadau a fanylir yn y Ddyletswydd Trais Difrifol (noder uchod) a'r partneriaid lleol yn ystod 2023 i weld a ydynt yn barod ar gyfer y Ddyletswydd ac i roi cymorth pwrpasol i ddatblygu a sicrhau cydymffurfiaeth. Mae partneriaid ledled y rhanbarth, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau ac mae arweinwyr Trais Difrifol wedi'u nodi mewn sefydliadau allweddol. Yr Arweinydd Strategol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion yw Barry Rees, sef Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, a'r ymarferwyr a enwebwyd yw Diana Davies (Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad) a Tim Bray (Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil).

Gellir defnyddio'r trefniadau partneriaeth presennol i gyflawni'r Ddyletswydd hon gan fod y Canllawiau Statudol yn nodi nad oes rheidrwydd creu partneriaethau newydd. Felly cytunwyd mai'r lle cywir i arwain ar gynllunio a gweithredu gofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol yw'r strwythur presennol ar gyfer Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol, a'r Bwrdd Rhanbarthol Trais Difrifol. Mae'r Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad a'r Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil yn mynychu cyfarfodydd Rhanbarthol Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol ar hyn o bryd, a byddant yn parhau i wneud hynny ac i adrodd yn ôl lle bo angen. At hynny, i gydnabod rôl hanfodol addysg wrth ddiogelu, argymhellir bod cynrychiolydd o fyd addysg strategol yr ardal yn mynychu'r cyfarfodydd i drafod y Ddyletswydd Trais Difrifol. Bydd hyn yn gymorth i gynnig dolen rhwng yr awdurdodau cyfrifol penodedig a sefydliadau unigol, a rhwng Cwricwlwm newydd Cymru a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cyflwyno o ran cefnogi maes llesiant. Cynigir bod y Ddyletswydd Trais Difrifol yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet, er gwybodaeth, ar 6^{ed} Mehefin 2023.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd mewn gweithgarwch o ran cyffuriau a Llinellau Cyffuriau yn y Sir a chytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid monitro hyn yn agos.
- Ymhellach i gwestiwn ynghylch dyraniad cyllid, cadarnhaodd y Swyddog nad yw'n glir eto pa asiantaeth fydd yn arwain ar ddod o hyd i allu ychwanegol i gydlynu'r gwaith hwn. Dylid cadarnhau hyn erbyn Medi 2023.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad a ganlyn:

- i. Nodi'r Ddyletswydd newydd o ran Trais Difrifol a'r goblygiadau i Gyngor Sir Ceredigion ac i'r partneriaethau perthnasol a fynychir gan gynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r Ddyletswydd newydd o ran Trais Difrifol a'r goblygiadau i Gyngor Sir Ceredigion ac i'r partneriaethau perthnasol a fynychir gan gynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion.

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ddeall y dyletswyddau ychwanegol y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion ymateb iddynt ac ystyried.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod o'r Cabinet a'r Swyddogion am fynychu a chyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor.

6 Adroddiad ar ddefnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod o'r Cabinet, a Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu, i gyflwyno'r Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i Aelodau'r Pwyllgor.

Cyflwynwyd Polisi RIPA diwygiedig i'r Pwyllgor ar 23^{ain} Tachwedd 2022, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 26^{ain} Ionawr 2023. Cafodd yr aelodau ddiweddariad hefyd yn dilyn arolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yng nghyfarfod mis Tachwedd.

Yn ogystal â'r newidiadau a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 23^{ain} Tachwedd 2022, gwnaeth y Cyngor gymeradwyo dau newid pellach i'r adran a geir yn y polisi RIPA ar y Weithdrefn ar gyflwyno cais am Awdurdodiad Gwylidwriaeth Gyfeiriedig (gweler adroddiad y Cyngor am ragor o wybodaeth). Cymeradwywyd y newidiadau ychwanegol hyn cyn cyfarfod y Cyngor a hynny gan Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

Y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am fonitro defnydd y Cyngor o Ddeddf RIPA. Cyflwynwyd y diweddariad diweddaraf ynglŷn â gweithgarwch RIPA i'r Pwyllgor ar 26^{ain} Medi 2022. Cyflwynir adroddiadau bob 6 mis.

Rhwng 4^{ydd} Gorffennaf 2022 a 26^{ain} Ebrill 2023, cafodd un cais am wylidwriaeth gyfeiriedig ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Cafodd yr awdurdodiad ei gymeradwyo gan ynadon ar 13^{eg} Ionawr 2023 a daeth i ben ar 13^{eg} Ebrill 2023 (3 mis). Gwnaed adolygiad ar 11^{eg} Ebrill 2023 a ddaeth i'r casgliad na ddylai'r awdurdodiad gael ei adnewyddu.

Ar Fai'r 12^{fed} 2023 cafodd diweddariad RIPA gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ei gyhoeddi ar Newyddion Cerinet a hynny ar gyfer holl staff y Cyngor. Roedd hwn yn hysbysu'r staff bod Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Corfforaethol y Cyngor ar Wylidwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol a Data Cyfathrebu, ar sail Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) RHAN II, wedi cael eu diweddarau. Roedd y

diweddariad hwn hefyd yn rhoi braslun i'r staff o'r ffurflenni a'r canllawiau RIPA a oedd ar gael ar CeriNet. Bwriedir cylchredeg negeseuon ar Cerinet bob chwe mis i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn ymwybodol o'r angen i ystyried RIPA.

Mae cylchlythyr chwarterol hefyd wedi'i gyhoeddi gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) ac mae ar gael i'w weld ar eu Gwefan. <https://www.ipco.org.uk/publications/correspondence/>

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Codwyd cwestiwn ynghylch ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Cadarnhaodd y Swyddog Llywodraethu y byddai'n rhaid i'r Awdurdod gadw at y polisi Rhyddid Gwybodaeth wrth ymateb i unrhyw gais.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r adroddiad.

Cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad, er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddefnydd y Cyngor o RIPA a gweithrediad polisiâu.

7 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod Cydlynu a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 fel cofnod cywir o'r trafodion ac nid oedd dim materion sy'n codi o'r cofnodion hynny.

8 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft

Rhoddodd pob Cadeirydd (neu Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) yn ei dro ddiweddariad ar Flaengynlluniau Gwaith eu Pwyllgorau priodol.

1. Cymunedau Ffyniannus

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith Cymunedau Ffyniannus.

Llongyfarchodd y Cyngorydd Wyn Evans y Cadeirydd am drefnu cyfarfod diweddar i drafod sefyllfa'r Gwastraff.

2. Cymunedau Iachach

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith Cymunedau Iachach.

Roedd yr aelodau'n siomedig bod yr adroddiad ynghylch Recriwtio//cadw Llesiant Gydol Oed wedi'i symud ymlaen i 3^{ydd} Gorffennaf 2023 o gyfarfod y Pwyllgor ar 24^{ain} Mai 2023.

3. Cymunedau sy'n Dysgu

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith Cymunedau sy'n Dysgu.

Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor gwestiwn mewn perthynas â Datganiad o Ddiddordeb a dywedodd y Swyddog Safonau a Craffu y dylai'r Cyngorydd gysylltu â'r Swyddog Monitro.

4. Adnoddau Corfforaethol

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith Adnoddau Corfforaethol.

5. Pwyllgor Cydlynu

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddiariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith y Pwyllgor Cydlynu. Nodir ar hyn o bryd y bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu ar 29 Mehefin 2023. Dywedodd Cadeirydd yr Adnoddau Corfforaethol, y Cynghorydd Rhodri Evans, y dylid cyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol gan ei fod yn dod o dan gyloch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Dywedodd y Swyddog Trosolwg a Chraffu ei bod wedi bod mewn cysylltiad â Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol. Y broblem yw'r amserlen ar gyfer cwblhau adroddiadau. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol ar Orffennaf y 19^{eg} 2023 yn bosibilrwydd.

Awgrymwyd y dylai pob Pwyllgor gael adroddiad yn yr Hydref ar sefyllfa'r Gyllideb er mwyn i'r Aelodau allu paratoi ar gyfer cyfarfodydd mis Chwefror. Byddai hyn yn rhoi cyfle i drafod lle mae arbedion yn debygol o fod yn rhoi mwy o fewnbwn gan Aelodau ynghylch yr opsiynau sydd ar gael.

Awgrymodd Aelod y dylid cynnwys Caffael ar Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor perthnasol.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor, Aelodau'r Cabinet, Swyddogion am fynychu a daeth y trafodion i ben am 12 hanner dydd.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 29 Mehefin 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____